

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017



www.tancgc.gov.uk



Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017. Diben yr Adroddiad hwn yw rhoi darlun o'r hyn yr ydym wedi ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawni ein dyletswyddau statudol, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gwasanaeth yw un o'r ffyrdd yr ydym yn dangos i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau moesol a chyfreithiol, o ran cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'n adlewyrchu'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn ein cymunedau yn ogystal â chofnodi data/gwybodaeth allweddol am gydraddoldeb.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni ddathlu rhai o'n llwyddiannau o ran gwella Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a hynny yn ein sefydliad ac yn y cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu. Yn bersonol, teimlaf ein bod, fel sefydliad, wedi cymryd camau breision ymlaen yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf, ac rwy'n hynod falch bod llawer o'r gwaith wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer yn ein cymunedau lleol. Serch hynny, rydym wedi nodi nifer o ffyrdd y credwn y gallwn wella'r modd yr ydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a'n cyflogeion ymhellach, ac mae'r rhain yn feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.



Chris Davies QSFM MBA

Prif Swyddog Tân

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Pwy ydym ni | 4 |
| Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau | 5 |
| Y Sefyllfa Bresennol | 6 |
| | |
| Dyletswyddau Penodol: | |
| Amcan 1 | 6 |
| Amcan 2 | 7 |
| Amcan 3 | 9 |
| Amcan 4 | 9 |
| Amcan 5 | 11 |
| Amcan 6 | 12 |
| Amcan 7 | 13 |
| Amcan 8 | 14 |
| | |
| Y Dyfodol | 14 |
| Atodiadau: | 16 -38 |
| Data Staff – Cyffredinol | |
| Data Staff – yn ôl Lefel Reoli | |
| Data Recriwtio Staff Cymorth | |
| Data Recriwtio Staff Ar Alwad | |
| Data Dyrchafu Staff | |
| Data Trosglwyddo | |
| Data Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref | |
| Data Ymgysylltu/Ymgynghori | |
| Data Ymateb i Ddigwyddiadau | |
| Holiadur Pobl Rydym Yn Eu Gwasanaethu | |
| Ymgynghoriad Data 2016/2017 | |
| Data wedi eu cofnodi trwy System Gofnodi Digwyddiad y Gwasanaeth | |
| | |
| Sut i Gysylltu | |

75% wedi'i ailgylchu

Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi'i ailgylchu

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017, ac fe'i cyflwynir o dan ein gofynion adrodd statudol a bennir gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Beth mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn fater busnes allweddol i'r Gwasanaeth, a'r prif ffactorau busnes sy'n ei sbarduno i gefnogi strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a busnesau
- Datblygu diwylliant creadigol ac arloesol
- Diwallu anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw a datblygu cyflogaion
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Mae cyfle cyfartal yn cwmpasu ymagwedd y Gwasanaeth nid yn unig at ddarparu gwasanaethau, ond hefyd at sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, cynnwys pobl mewn penderfyniadau, a sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau risg ac yn craffu ar bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth o ran cydraddoldeb yn barhaus, er mwyn bod yn sefydliad sy'n ymdrechu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn unrhyw grwp/grwpiau o unigolion.



Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol mewn chwe Awdurdod Unedol, sy'n ffurfio ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yr Awdurdodau Unedol yw:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Dinas a Sir Abertawe




Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r sefydliad yn cyflogi tua 1,300 o aelodau o staff mewn amrywiol gategorïau cyflogaeth, h.y. Staff Gweithredol, Staff Rheoli a Staff Cymorth, ac mae'n cwmpasu tua 4,500 o filltiroedd sgwâr – bron dwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu amrywiaeth o gymunedau yn ei hardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

Rôl yr Awdurdod Tân yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn benodol Deddf Argyfyngau Sifil 2004, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006.
- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynnyddol, y cyllidebau referniw a chyfalaf yn ogystal â chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau referniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb gweithredol a rheoli corfforaethol cyffredinol dros y Gwasanaeth. Ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau





Y Sefyllfa Bresennol

Dyletswyddau Penodol Cymru y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, mewn perthynas â Dyletswyddau Penodol Cymru; ac mae'n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cynhwysfawr.

Gallwch weld ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn: mawwfire.gov.uk neu ofyn am gopi papur trwy gysylltu â'r cyfeiriad ar y clawr cefn.

Amcan 1

Sicrhau bod gennym y systemau angenrheidiol ar waith i gasglu a phrosesu'r data sydd eu hangen arnom.

Rheswm

Mae targed ein gwaith ataliol yn seiliedig ar gyfres gydnabyddedig o dybiaethau o ran pa grwpiau yn ein cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf. Wrth i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a natur y risgiau hyn newid, mae'n bwysig ein bod yn casglu ac yn dadansoddi'r data priodol a fydd yn ein galluogi i brofi'r tybiaethau hirsefydledig hyn a sicrhau ein bod yn gwerthuso pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf yn barhaus, fel ein bod yn gallu targedu ein hadnoddau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Yr hyn a wnaethom

- Cefnogir trefniadau cyfeirio gan asiantaethau partner sy'n gweithio gydag unigolion sy'n agored i niwed gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan ddibynnu ar y trefniadau cyfeirio. Os bydd y Gwasanaeth yn canfod ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed fel rhan o'i waith yn y Gymuned byddant yn cael eu cyfeirio at yr asiantaeth berthnasol drwy ein trefniadau Diogelu.
- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu modiwl ar-lein Ymgysylltu â'r Gymuned fel rhan o'r System Gwybodaeth Rheoli Risg Tân Cymunedol (CFRMIS) er mwyn cofnodi'r cyswllt y mae'r Gwasanaeth yn ei gael â phob unigolyn yn ogystal â data sy'n ymwneud â risgiau posibl neu ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed.
- Cesglir gwybodaeth am risg drwy ein hymweliadau diogelwch yn y cartref. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chroesgyfeirio â gwybodaeth am ddigwyddiadau, mewn achosion lle nodwyd ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed, er mwyn sicrhau bod ein gwaith targedu a'n deunyddiau ymgyrchu yn dal i gael eu cyfeirio at y rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau. Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cael ei monitro drwy Grwpiau Cymru Gyfan a sefydlwyd er mwyn canolbwyntio ar drefniadau cymunedol a threfniadau diogelu.
- Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu ymagwedd Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif drwy weithio



gyda phartneriaid er mwyn darparu eu negeseuon iechyd a lles hwy hefyd fel rhan o'n hymweliadau diogelwch yn y cartref. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant i'n Partneriaid Trydydd Sector i'w galluogi i ddarparu Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref i aelodau risg uchel ein cymunedau y mae'r Gwasanaeth yn cael anhawster i'w cyrraedd.

- Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Adolygu Risg er mwyn darparu gwybodaeth am ein Gweithgareddau Diogelwch Cymunedol ac Iechyd a Lles presennol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chysylltu â gwybodaeth am gynllunio a materion economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol. Bydd hyn o gymorth er mwyn dylanwadu ar y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Cwblhau'r gwaith o gyflwyno Holiadur Pobl Rydym yn eu Gwasanaethu ym mhob rhan o'r Gwasanaeth (A ddefnyddir i gasglu data ar nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn yn rhan o'n proses Gwirio Diogelwch Tân yn y Cartref), i alluogi bod pob gweithwyr sydd yn cyflwyno Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref yn ymwybodol o'r ffurflen/gweithdrefnau priodol.
- Parhau i weithio mewn cysylltiad agos â'n partneriaid yn y Trydydd Sector er mwyn gwneud ein cymunedau mor ddiogel ag sy'n bosibl drwy rannu gwybodaeth a data am grwpiau ac unigolion sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n wynebu risg.

Amcan 2

Parhau i wella dealltwriaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y gweithle.

Rheswm

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ymsefydlu sylfaenol i'r holl bersonél er mwyn darparu ymwybyddiaeth gychwynnol o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r holl bersonél yn cael hyfforddiant diweddar bob tair blynedd. Fodd bynnag, fel darparwr gwasanaeth sector cyhoeddus, mae'n bwysig bod ein personél yn cael hyfforddiant manylach a fydd yn eu galluogi i werthfawrogi'n llawn yr amrywiaeth eang o faterion y gallant eu hwynebu wrth reoli perthnasoedd yn y gweithle, yn ogystal â'r rhai y gallant eu hwynebu wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau a gwneud gwaith ataliol yn eu cymunedau.

Yr hyn a wnaethom

- Cyflwynodd Stonewall Cymru Hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod i'r Bwrdd Gweithredol (mae'r hyfforddiant hwn wedi ei gyflwyno yn barod yn Seminarau'r Rheolwyr Goruchwylio a'r Rheolwyr Canol). Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i weithwyr eraill yn ystod 2017/18.
- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu Calendr Cyfathrebu ar gyfer 2017/18 gan dynnu sylw at ddyddiadau o bwys yn y Calendr Amrywiaeth. Bydd y Gwasanaeth yn dangos ei gefnogaeth i'r Calendr drwy ei Dudalennau Cyfryngau Cymdeithasol a'r wefan. Bydd y calendr hwn yn



cael ei ddatblygu y naill flwyddyn ar ôl y llall er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth hefyd yn cyfathrebu negeseuon pwysig yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn fel y bo'n briodol.

- Mae rhaglen o hyfforddiant yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Aelodau Etholedig wedi cael ei datblygu, ac mae cynnwys y sesiwn hyfforddi cyntaf eisoes wedi cael ei gwblhau. Disgwylir y bydd y sesiwn cyntaf yn cael ei gyflwyno yn ystod Hydref/Gaeaf 2017.
- Mae'r Gwasanaeth wedi drafftio 'Pecyn Cymorth Anabled', er mwyn helpu staff a rheolwyr llinell i wneud addasiadau rhesymol yn y gweithle, yn ogystal â nodi manylion cysylltu a ffynonellau gwybodaeth defnyddiol yn y sefydliad a thu hwnt.
- Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth gweithwyr o faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl drwy gefnogi a rhoi cyhoeddusrwydd i fentrau fel Diwrnod Amser i Siarad ac Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl.
- Mae gweithdrefnau a chanllawiau wedi cael eu datblygu ar gyfer y Menopos a Defodau Crefyddol, gan roi cyngor a nodi manylion cyswllt defnyddiol ar gyfer ein staff a'u rheolwyr.



Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Creu a chyhoeddi rhagor o ddeunyddiau cyfeiriol ar gyfer rheolwyr a staff, gan gynnwys Pecyn Cymorth Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu a Phecyn Cymorth Hunaniaeth o ran Rhywedd/Pontio yn y Gweithle, gan sicrhau bod y gweithwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael o fewn y Gwasanaeth, ac mewn lleoedd eraill, a bod Rheolwyr Llinell yn ymwybodol o unrhyw ystyriaethau perthnasol megis addasiadau yn y gweithle/cymorth iechyd galwedigaethol neu amser o'r gwaith a allai fod o gymorth.
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod i aelodau o Dîm Arwain y Gwasanaeth a'r Adran Lleihau Risg yn y Gymuned, gyda'r bwriad o gyflwyno hyfforddiant tebyg i'r holl swyddogion gweithredol.
- Adolygu'r ffordd yr ydym yn cyflwyno Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith er mwyn sicrhau'r ddealltwriaeth a'r cyfranogiad gorau posibl ar draws y gweithlu.
- Gweithio mewn cysylltiad agos â Mind Cymru er mwyn cyflwyno Rhaglen Golau Glas Mind ym mhob rhan o'r sefydliad.



Amcan 3

Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfathrebu allanol a gynhyrchir gan y sefydliad yn hygyrch i bawb.

Rheswm

Dangosodd adborth a gafwyd fel rhan o ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth yn ddiweddar ynglyn â'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol fod angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir gan y Gwasanaeth yn cyrraedd yr holl bartion â diddordeb. Felly, mae angen gwneud ymdrech benodol i sicrhau ein bod yn teilwra ein cyhoeddiadau, er mwyn sicrhau bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu eu gweld.

Yr hyn a wnaethom

- Mae Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn datblygu gwefan allanol newydd a fydd yn cael ei lansio yn Haf 2017. Bydd y wefan newydd yn cael ei chynllunio i fodloni safonau hygyrchedd sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gennym yn hygyrch i bawb yn ein cymunedau.
- Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn adolygu ein llenyddiaeth diogelwch er mwyn sicrhau bod ein prif ddeunydd gwybodaeth am ddiogelwch ar gael yn yr ieithoedd a'r fformatau y mae ar ein cymunedau eu heisiau.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r wefan, bydd yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn sicrhau bod safonau hygyrchedd gwefannau W3C, sy'n cael eu derbyn yn fyd-eang, yn cael eu bodloni, a bydd yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol a fforymau cydraddoldeb er mwyn gwella hygyrchedd y wefan.
- Bydd rhaglen arall o hyfforddiant trosi i ffurf Hawdd ei Deall yn cael ei threfnu er mwyn sicrhau bod holl Adrannau'r Gwasanaeth yn gallu cyflawni eu dyletswydd i gyhoeddi dogfennau allweddol a gwybodaeth am ddiogelwch mewn fformat Hawdd ei Ddeall.

Amcan 4

Gweithio i sicrhau'r gweithlu gorau posibl trwy sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn ystyried Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyflogwr o ddewis.



Rheswm

Bydd sicrhau proffil gweithlu mwy amrywiol yn galluogi'r Gwasanaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir ymhellach, ac i adlewyrchu cymunedau lleol yn well.



disability confident



Yr hyn a wnaethom

- Yn ystod y cyfnod cyn lansio ei Ymgyrch Recriwtio Amser Cyflawn ddiweddaraf yn Rhagfyr 2016, cynhaliodd y Gwasanaeth nifer o Ddiwrnodau Ymwybyddiaeth mewn lleoliadau allweddol, gan annog grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn y sector gweithredol i ystyried hyn fel gyrfa bosibl.
- Buom yn cefnogi a mynychu digwyddiadau i hyrwyddo Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, gan fanteisio ar y cyfle hwn i gynnal digwyddiad codi ymwybyddiaeth arall ac annog menywod i ystyried bod yn ddiffoddwr tân gweithredol.
- Cofrestru ar gyfer Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a dechrau gweithio tuag at achrediad Lefel 1 o fewn y Cynllun hwnnw. Nod cyffredinol y Gwasanaeth yw cyrraedd Lefel 3 erbyn 2019.
- Dosbarthwyd Memo'r Prif Swyddog Tân i bob aelod o'r staff gan ofyn am farn/sylwadau/profiadau y byddent yn hoffi eu rhannu gyda'r Prif Swyddog Tân cyn iddo fynd i gyfarfod o'r Grwp Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn Chwefror 2017.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Trefnu rhaglen o Ddiwrnodau ymwybyddiaeth wedi eu targedu ar gyfer 2017/18 a fydd yn caniatáu i'r Gwasanaeth ymgysylltu'n fwy rheolaidd ac mewn ffordd fwy strwythuredig â darpar weithwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Defnyddio ein rhwydweithiau cymunedol sefydledig fel ffordd o sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gyrfa yn y Gwasanaeth yn cael eu hysbysebu'n ehangach ac i gynulleidfa fwy amrywiol.
- Gwneud adolygiad cynhwysfawr o'n Ffurflenni Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ac amcanion y Gwasanaeth yn y dyfodol.
- Gweithredu system ar-lein ar gyfer cwblhau a chyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael eu hadolygu a'u cyhoeddi.
- Cymryd camau er mwyn sicrhau bod holl weithdrefnau'r Gwasanaeth yn Draws-gynhwysol, a bod dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn cael eu diweddarau yn ôl y galw.



Amcan 5

Sicrhau bod y Gwasanaeth wrth galon ein cymunedau lleol, ac achub ar y cyfle hwnnw i hyrwyddo goddefgarwch a pharch yn y cymunedau hynny.

Rheswm

Mae parch mawr at y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cymunedau lleol ac felly, mae mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar y rheini sy'n byw yn ei ardal mewn ffordd gadarnhaol. Felly, mae'n bwysig ein bod yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo goddefgarwch a pharch wrth ryngweithio â grwpiau gwahanol.

Yr hyn a wnaethom

- Parhau i ymgysylltu â grwpiau ym mhob un o'n hardaloedd Rheoli drwy fod yn bresennol mewn fforymau megis Lleisiau Sir Benfro dros Gydraddoldeb, Lleisiau Ceredigion dros Gydraddoldeb, Cydraddoldeb Sir Gâr a Fforwm Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Abertawe.
- Codi arian i elusennau, gan gynnwys Ambiwylans Awyr Cymru, Cymdeithas Alzheimer's a Ward Plant Cilgerran yn Ysbyty Glangwili.
- Cynnal cysylltiadau gwaith agos â sefydliadau fel Age Concern, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Hafal, Gofal a llawer mwy.
- Cefnogi digwyddiadau cymunedol amrywiol a darparu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys Swansea Sparkle, Diwrnod Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Llanelli, Diwrnod Rhuban Gwyn a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
- Gweithio mewn cysylltiad agos â Chyngor Sir Penfro er mwyn cyflwyno 'Cwrs Camau Cadarnhaol' i bobl ifanc 17 – 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.
- Datblygu a chyflwyno fersiwn 3 diwrnod arbennig o gwrs Phoenix y Gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc sydd ag anabledd corfforol neu anableddau dysgu.
- Gweithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, a oedd wedi cael eu nodi gan eu hysgolion fel rhai heb lawer o hunan-dyb, a chyflwyno cwrs Phoenix 1 wythnos i roi hwb i'w hunanhyder a'u gallu i weithio fel tîm. Gobeithio y bydd hyn yn eu helpu i ymgysylltu mwy yn yr ysgol a datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch priodol â'u cyfoedion.
- Gweithio gyda phobl ifanc dan anfantais sy'n derbyn gofal, drwy gynnal diwrnod Diffoddwr Tân am Ddiwrnod yn ystod gwyliau hanner tymor y gaeaf.
- Gweithio mewn cysylltiad agos â'n sefydliadau partner er mwyn helpu ffoaduriaid o Syria sydd yn ardal y Gwasanaeth i setlo, gan ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch ym mha bynnag iaith sy'n briodol yn ogystal â darparu cyngor ymarferol am ddiogelwch yn ôl y galw.



Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Sicrhau bod Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn cael ei gyflwyno fesul cam i'r holl staff rheng flaen gan ddefnyddio dull Hyfforddi'r Hyfforddwyr.
- Mae staff Diogelwch Cymunedol yn dilyn hyfforddiant Lefel 1 mewn Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig ar gyfer Fframwaith Hyfforddi Llywodraeth Cymru a bydd rhai aelodau o'r staff yn derbyn lefelau uwch o hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau.
- Ehangu ystod y digwyddiadau cymunedol yr ydym yn mynd iddynt a'r partneriaid yr ydym yn ymgysylltu â hwy er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd pob rhan o'r gymuned.
- Rhoi sgysiau lleihau achosion o danau glaswellt a thanau bwriadol i glybiau ieuencid fel rhan o'n gwaith lleihau tanau bwriadol ac ymgysylltu â phobl ifanc.

Amcan 6

Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn fwy diogel trwy gynnal ymweliadau diogelwch yn y cartref wedi'u targedu.

Rheswm

Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ymdrin â diogelwch cymunedol mewn modd cyfannol, er mwyn gwella lechyd a Lles dinasyddion. Mae cymunedau diogel ac iach yn gwella cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol ardaloedd lleol fel rhan o ddyheadau Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr hyn a wnaethom

- Darperir pecyn hyfforddi manwl yn ymwneud â Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref i'n Partneriaid Trydydd Sector i'w galluogi i wneud gwiriadau yng nghartrefi eu Cleientiaid fel rhan o'r gwasanaeth. Cynhelir ymweliadau ar y cyd â'n hasiantaethau partner er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud y gwiriadau yn unol â'r safonau gofynnol. Os nad yw ein partneriaid yn gallu gwneud gwiriadau defnyddir system gyfeirio.
- Mae'r dull cyfannol a dreialwyd gan y Gwasanaeth yn ardal Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r dull gweithredu hwn bellach yn cael ei ehangu i rannau eraill o'r Gwasanaeth â chymorth partneriaid lleol.
- Gweithio gydag asiantaethau partner (y Bwrdd Lechyd Lleol, yr Heddlu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru) i ddarparu rhaglen Byw'n Ddiogel, yn iach ac yn Annibynnol, yn fwyaf arbennig ar gyfer pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain ac sydd angen cymorth a chynghor ynglŷn â diogelwch yn y cartref.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Parhau i gyflwyno cynlluniau Cyd-ymatebydd yn raddol mewn Gorsafoedd Tân Lleol er mwyn helpu Gwasanaeth Ambiwllansys Cymru i ddarparu ymateb meddygol mewn argyfwng.



- Cefnogi rhagor o waith i gyflwyno'r Cynllun Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref cyfannol ar draws y Gwasanaeth yn raddol, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth briodol sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, a galluogi'r Gwasanaeth i gasglu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl a darparu cyngor cynhwysfawr am faterion diogelwch yn y cartref a lles personol.

Amcan 7

Datblygu cyfleoedd ymgysylltu â'n gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, a sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o'r gweithlu.

Rheswm

Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i fabwysiadu diwylliant sy'n galluogi'r holl bersonél i fod yn driw iddynt hwy eu hunain yn y gweithle. Gall cyflogeion sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys ond gwella enw da'r Gwasanaeth fel cyflogwr o ddewis ym mhob rhan o gymdeithas, a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Yr hyn a wnaethom

- Cefnogi gweithwyr sydd eisiau mynd i Gynhadledd Flynyddol Stonewall a Rhaglenni Cynghreiriaid Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, yn ogystal â Networking Women yn nigwyddiadau'r Gwasanaeth Tân.
- Lansio Fforwm mewnol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Nod y Fforwm fydd hyrwyddo materion ymhlith gweithwyr, cyfrannu tuag at agenda cynhwysiant ac amrywiaeth y sefydliad, rhoi cyngor ar ddatblygu gweithdrefnau priodol a gwella'r amgylchedd gweithio. Gofynnwyd i bobl fynegi eu diddordeb yn y Fforwm hwn fel rhan o ddathliad y Gwasanaeth o Fis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a bydd y Grŵp yn cynnal ei gyfarfod cyntaf tua diwedd mis Mawrth 2017.
- Defnyddiwyd Hyrwyddwyr Ymgysylltu'r Gwasanaeth fel grŵp ffocws i gael adborth gan weithwyr am ganlyniadau'r Adolygiad o'r Gwasanaeth a Datblygu Opsiynau.
- Mae Bwrdd Gweithredol y Gwasanaeth wedi parhau i gyflawni ei swyddogaethau Hyrwyddo Amrywiaeth er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, yn ogystal â chymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ein gweithwyr yn teimlo eu bod yn gallu bod yn driw iddynt eu hunain yn y gweithle.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol wedi eu gwneud er mwyn i'r Fforwm Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a'r Fforwm Anabledd allu rhoi adborth uniongyrchol i Dîm Arwain Gweithredol y Gwasanaeth.



- Disgwyl adborth yn dilyn y gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Fforwm Gwasanaeth Tân Cynhwysol y Cyd-gyngor Cenedlaethol a chymryd camau priodol i annog grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ddod yn ddiffoddwyr tân gweithredol.
- Adolygu'r opsiynau gweithio hyblyg sydd ar gael i'n gweithwyr ar hyn o bryd yn unol â'r arferion gorau.
- Dadansoddi data cyfweiliadau ymadael o bob rhan o'r Gwasanaeth er mwyn canfod unrhyw themâu cyffredin neu batrymau y mae angen rhoi sylw iddynt, ac a allai ein helpu i gadw staff yn y dyfodol.

Amcan 8

Cynnwys egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau allweddol, er mwyn eu prif-ffrydio i waith o ddydd i ddydd.

Rheswm

Er mwyn cyflawni ei ymrwymiad parhaus i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, rhaid i'r Gwasanaeth sicrhau bod yr holl brosesau mewnol ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn gyson â'i benderfyniadau strategol.

Yr hyn a wnaethom

- Sefydlu system sy'n sicrhau nad yw ymarferion Caffael yn mynd yn eu blaenau nes bydd yr Aseiad priodol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau (os oes angen un).
- Atgoffa pob Pennaeth Adran (drwy Gadeirydd Tîm Arwain y Gwasanaeth) ei bod yn ofynnol iddynt ystyried, cyn cyflwyno eu papurau, a fyddai'r gweithdrefnau/cynigion y byddant yn eu rhoi gerbron y fforwm yn cael unrhyw effaith sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Sicrhau, drwy ddarparu hyfforddiant priodol bod gan bob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ddigon o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'w galluogi i graffu ar benderfyniadau a gweithredoedd y Gwasanaeth a'u herio os oes angen.

Y Dyfodol

Er ein bod wedi dechrau casglu rhywfaint o ddata demograffig ystyrion fel rhan o'n proses Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref, mae swm y data sydd wedi eu casglu'n gymharol isel o hyd o'i gymharu â nifer y Gwiriadau Diogelwch sy'n cael eu gwneud. O gofio hyn, un o'r meysydd y bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio arno yn ystod y cyfnod adrodd nesaf fydd cynyddu swm y data sy'n cael eu casglu fel hyn, er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â sut i helpu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau yn y dyfodol.

Gobeithio bod yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i chi. Os hoffech roi adborth, neu ofyn am gopi ohono mewn fformat arall, cysylltwch:

Mr Kevin Jones, Chyfarwyddwr Adnoddau'r Gwasanaeth

Ebost: k.jones@mawwfire.gov.uk

Post: **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Pencadlys y Gwasanaeth, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP



DATA STAFF GTACGC (YR HOLL STAFF)

(ar 31 Mawrth 2017)

| Rhyw (Staff Presennol) | |
|------------------------|-------------|
| Benyw | 195 |
| Gwryw | 1090 |
| Cyfanswm | 1285 |

| Anabledd wedi'i Ddatgan (Staff Presennol) | |
|---|-----------|
| Benyw | 5 |
| Gwryw | 35 |
| Cyfanswm | 40 |

| Oedran (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|--------------------------|------------|-------------|
| 16-24 | 13 | 88 |
| 25-34 | 53 | 258 |
| 35-44 | 65 | 288 |
| 45-54 | 36 | 363 |
| 55-64 | 24 | 90 |
| 65+ | 4 | 3 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

| Hil/Ethnigrwydd (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|-----------------------------------|------------|-------------|
| Tsieineaidd | 0 | 1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribiaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaid | 1 | 1 |
| Indiaidd | 0 | 1 |
| Gwyn Prydeinig | 191 | 1071 |
| Gwyn Arall | 0 | 10 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3 | 4 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

| Crefydd neu Gred (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|------------------------------------|------------|-------------|
| Cristnogol | 73 | 417 |
| Islam | 0 | 1 |
| Bwdhaidd | 0 | 4 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 8 |
| Dim | 61 | 297 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 61 | 363 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

| Statws Priodasol (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|------------------------------------|------------|-------------|
| Sengl | 77 | 443 |
| Priod | 94 | 576 |
| Gyda phartner | 2 | 4 |
| Wedi ysgaru | 17 | 61 |
| Gweddw | 3 | 2 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 1 |
| Wedi gwahanu | 1 | 1 |
| Arall | 0 | 1 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

| Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsoch eich geni (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|--|------------|-------------|
| Ydy | 151 | 832 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 258 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

| Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|---|-------|-------|
| Ydw | 19 | N/A |
| Nac ydw | 176 | N/A |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 0 | N/A |

| Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|--|------------|-------------|
| Deurywiol | 1 | 10 |
| Hoyw/Lesbiaidd | 2 | 2 |
| Heterorywiol | 138 | 734 |
| Trawsrywiol | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 54 | 344 |
| Cyfanswm | 195 | 1090 |

DATA STAFF GTACGC

yn ôl Lefel Reoli (ar 31 Mawrth 2017)

| Rhyw | | Rheolwr Ardal [+] | Rheolwr Gorsaf a Rheolwr Grwp [7-15] | Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa [4-6] | Diffoddwr Tân [1-3] |
|-------|-----------------|----------------------|---|--|------------------------|
| Benyw | | 0 | 34 | 71 | 97 |
| Gwryw | | 8 | 87 | 406 | 657 |
| | Cyfanswm | 8 | 121 | 477 | 754 |

